



Cyfarfod

PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

Dyddiad ac Amser

10.00 y.b., DYDD LLUN, 13EG MEDI, 2021

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

01286 679 878

lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 3 Medi 2021)

PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

AELODAETH (15)

Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Steve Collings
Dafydd Owen
Elfed Williams
W. Gareth Roberts

Annwen Hughes
Edgar Wyn Owen
Gareth Tudor Morris Jones
Elin Walker Jones

Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

John Brynmor Hughes
Jason Wayne Parry

Eryl Jones-Williams
Angela Russell

Llais Gwynedd (1)

Cynghorydd Gareth Williams

Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Cynghorydd W Roy Owen

Aelod Unigol (1)

Sedd Wag

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

3. MATERION BRYN

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

4 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 19 Gorffennaf 2021 fel rhai cywir

5. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

7 - 8

Cyflwyno, er gwybodaeth, gofnodion o gyfarfod Is bwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar y dyddiad canlynol:

a) 15 Mawrth 2021

6. RHEOLI SEFYDLIADAU RHYW - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1982

9 - 14

I ystyried yr adroddiad a chymeradwyo argymhelliad i'r Cyngor Llawn fabwysiadu grymoedd i reoleiddio sefydliadau rhyw ac argymhellion cysylltiol yn dilyn sylwadau ymgynghoriad cyhoeddus

Eitem 4

PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL CYFARFOD ARBENNIG 19-07-21

Presenoldeb:

Cynghorwyr: Annwen Hughes (Cadeirydd), John Brynmor Hughes, Gareth Morris Jones, Elin Walker Jones, Eryl Jones-Williams, Edgar Owen, Dafydd W Owen, Angela Russell, Elfed Williams a Gareth Williams

Swyddogion:

Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol – Amgylchedd), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd W Roy Owen a'r Cynghorydd Jason W Parry

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd Mehefin 7fed 2021 fel rhai cywir

5. RHEOLI SEFYDLIADAU RHYW – DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1982

Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth yr Amgylchedd yn amlygu'r angen i gychwyn ymgynghoriad cyhoeddus ar fabwysiadu grymoedd i reoleiddio sefydliadau rhyw yn y Sir. Eglurwyd bod yn ofynnol i Awdurdod Trwyddedu sydd yn dymuno rheoleiddio sefydliadau rhyw yn ei ardal, fabwysiadu darpariaethau Atodlen 3 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 ("Deddf 1982"), fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Plismona a Throseddu 2009 ("Deddf 2009"). Mae mabwysiadu Atodlen 3 o Ddeddf 1982 yn ddewisol ac yn digwydd fel arfer pan gyflwynir bwriad i agor busnes o'r fath am y tro cyntaf.

Yn hanesyddol, dim ond ym Mangor y derbyniwyd cais ble rhoddwyd trwydded i agor busnes o'r fath ac felly Cyngor Dosbarth Arfon yn unig sydd wedi gwneud penderfyniad i fabwysiadu Atodlen 3, a ddaeth yn weithredol 1 Awst 1983. (Nid oes tystiolaeth fod Cyngor Dosbarth Dwyfor na Chyngor Dosbarth Meirionnydd wedi penderfynu mabwysiadu Atodlen 3). Ymddengys, yn sgil ad-drefnu Llywodraeth Leol 1996 nad oes tystiolaeth bod Cyngor Gwynedd wedi penderfynu mabwysiadu Atodlen 3 chwaith. O ganlyniad, ardal Arfon yw'r unig ardal o'r sir lle mae gan y Cyngor yr hawl i drwyddedu o dan Atodlen 3 (yr

hen Gyngor Bwrdeistref Arfon). Yn ogystal, ers i Gyngor Bwrdeistref Arfon fabwysiadu'r atodlen yn 1983, mae'r atodlen bellach wedi ei diwygio gan adran 27 o Ddeddf 2009 i gynnwys y gallu i drwyddedu mangreoedd adloniant rhywiol. Gan fod y diwygiad yn ddewisol ac wedi ei gyflwyno ar ôl y penderfyniad i fabwysiadu, nid yw grym y Cyngor i reoleiddio yn Arfon o dan Atodlen 3 yn cynnwys y gallu i reoleiddio mangreoedd adloniant rhywiol ar hyn o bryd.

Cyfeiriodd y Rheolwr Trwyddedu at y broses ffurfiol a'r camau allweddol sydd ynghlwm ar broses o fabwysiadu Atodlen 3 ynghyd ar risgiau i'r Cyngor o beidio â mabwysiadu'r atodlen. Yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010, cyfeiriwyd hefyd at yr asesiad cydraddoldeb a gwblhawyd oedd yn ystyried yr effaith cydraddoldeb i'r cynnig. Adroddwyd bod yr asesiad yn rhoi cyfle i'r Awdurdod Trwyddedu hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a'r ddyletswydd economaidd cymdeithasol, drwy sefydlu cyfundrefn lle mae sefydliadau yn cael eu rheoli a'u gweithredu yn gyfreithlon.

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Y byddai gosod cyfundrefn yn sicrhau rheolaeth a threfn
- Bod angen sicrhau geiriad addas ar gyfer hysbysebu yn gyhoeddus
- Bod angen ail adolygu rhai cymalau o fewn yr asesiad effaith
- Bod angen sicrhau mewnbwn gan yr Heddlu a phartneriaid eraill
- Bod angen cydweithio gyda'r gwasanaeth cynllunio
- Byddai peidio mabwysiadau trefn yn amlygu risgiau a codi pryderon

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â ffioedd priodol, nodwyd er bod y Siop ym Mangor wedi cau erbyn hyn, bod Cyngor Dosbarth Arfon wrth fabwysiadu Atodlen 3 wedi pennu'r ffioedd uchaf posib o dan ddarpariaethau statudol y Ddeddf. Er hynny, heriwyd ffioedd y Cyngor ac yn unol â dyfarniad Llys gorfodwyd y Cyngor i osod ffioedd fyddai yn adennill costau yn unig. Wrth ystyried mabwysiadu Atodlen3 i'r dyfodol a threfniadau gosod ffioedd, awgrymwyd y dylai'r ffioedd adlewyrchu costau gosod cyfundrefn newydd yn ei lle a chostau prosesu ceisiadau.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn ag ymestyn cyfnod yr ymgynghoriad (28 diwrnod yn ymddangos yn fyr a'r ymgynghoriad i'w ryddhau dros Wyliau'r Haf), nodwyd nad oedd y Ddeddf yn gosod cyfnod amser penodol ar gyfer ymgynghori. Ystyriwyd bod y cyfnod a gynigiwyd ar gyfer ymgynghori ar osod trefn yn ddigonol. Dadleuwyd y byddai oedi o gael proses mewn lle yn amlygu risg.

Mewn ymateb i gwestiwn pam bod y siop ym Mangor wedi cau, nodwyd bod gostyngiad yn y galw o werthu o siop wedi ei lleoli ar y stryd fawr a bod cynnydd mewn manwerthu ar-lein.

PENDERFYNWYD:

- **cymeradwyo ymgymryd â'r broses o ystyried mabwysiadu Atodlen 3 o Ddeddf 1982, fel y'i diwygiwyd gan adran 27 o Ddeddf 2009, fel bod cyfundrefn ar gyfer rheoleiddio a thrwyddedu sefydliadau rhyw drwy'r sir;**
- **awdurdodi'r Pennaeth Amgylchedd i ymgymryd â phroses ymgynghori am 28 diwrnod gan gychwyn ar 26 Gorffennaf 2021, gan ddychwelyd y mater i'r Pwyllgor hwn am benderfyniad ynghylch ag argymhell i'r Cyngor Llawn fabwysiadu ynghyd ag argymhellion cysylltiol ar y rhybudd statudol, y dyddiad y daw'r mabwysiadu i rym a dirprwyo'r grym i'r**

Pwyllgor hwn bennu ffioedd, gosod amodau safonol a chynllun prosesu ceisiadau

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00 a daeth i ben am 10:50am

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 15-03-21

Yn bresennol:

Cynghorwyr: Y Cynghorydd Annwen Hughes (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Edgar Owen a Dafydd Owen

Swyddogion: Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

1. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w nodi

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.

5. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniadau yn cael ei gwneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a cholffarnau perthnasol. Amlygwyd nad oedd yr ymgeisydd wedi datgan fod ganddo gollfarnau blaenorol ar ei gais ac awgrymwyd iddo ymhelaethu ar hyn. Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymhell i'r Is-bwyllgor ganiatáu y cais.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei gais gan roi gwybodaeth am gefndir y collfarnau a'i amgylchiadau personol. Eglurodd bod y gollfarn yn un hanesyddol ac nad oedd wedi troseddu cyn nac ar ôl hynny.

PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS
- sylwadau ar lafar gan yr ymgeisydd
- Canllawiau'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrrwr a Cherbydau

Rhodddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

Yn Ionawr 1986 cafwyd yr ymgeisydd yn euog gan Lys Ynadon Caernarfon a Gwyrfaï ar un cyhuddiad o ymosod gan achosi gwir niwed corfforol (ABH), yn groes i adran 47 o Ddeddf Troseddau Corfforol 1861. Derbyniodd ddirwy o £40.00.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â cholffarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.4 yn nodi pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwy'r 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 6.0 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais. Ym mharagraff 6.1 nodir, gan fod gyrrwr trwyddedig yn dod i gysylltiad agos gyda'r cyhoedd yn rheolaidd y byddai is-bwyllgor yn mabwysiadu safbwynt cadarn at y rhai hynny sydd â throseddau yn ymwneud a thrais. Mae paragraff 6.5 o'r Polisi yn nodi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried am ymosodiad sydd yn achosi gwir niwed corfforol sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais.

Daeth yr Is-bwyllgor i gasgliad fod collfarn Ionawr 1986 yn un o drais. Fodd bynnag, gan fod y gollfarn wedi ei chyflwyno 35 mlynedd yn ôl (sydd ymhell tu hwnt i'r cyfnod 3 blynedd), nid oedd yr un o'r rhagdybiaethau dros wrthod o dan Rhan 6 o'r Polisi yn goroesi, ac felly nid yn sail i wrthod y cais

Wedi pwysu a mesur y dystiolaeth ar wybodaeth yn ofalus, roedd yr Is-bwyllgor o blaid caniatáu y cais a phenderfynwyd bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 11:20am a daeth i ben am 11:50am

Eitem 6

PWYLLGOR	PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL
DYDDIAD:	13 Medi 2021
TEITL:	RHEOLI SEFYDLIADAU RHYW - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1982
PWRPAS:	CYMERADWYO ARGYMHELLIAD I'R CYNGOR LLAWN FABWYSIADU GRYMOEDD I REOLEIDDIO SEFYDLIADAU RHYW AC ARGYMHELLION CYSYLLTIOL YN DILYN SYLWADAU YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS
AWDUR:	PENNAETH YR ADRAN AMGYLCHEDD

1.0 GWYBODAETH GEFNDIROL

- 1.1 Mae'n ofynnol i Awdurdod Trwyddedu sydd yn dymuno rheoleiddio sefydliadau rhyw yn ei ardal fabwysiadu darpariaethau Atodlen 3 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 ("Deddf 1982"), fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Plismona a Throseddau 2009 ("Deddf 2009").
- 1.2 Mae mabwysiadu Atodlen 3 o Ddeddf 1982 yn ddewisol ac fel arfer yn digwydd pan gyflwynir rhybudd o fwriad i agor busnes o'r fath am y tro cyntaf. Yn hanesyddol, dim ond ym Mangor y derbyniwyd cais ble rhoddwyd trwydded i agor busnes o'r fath.
- 1.3 Daeth Deddf 1982 i rym ym 1982. Rhwng 1982 a 1996 mater i'r cyn gynghorau dosbarth a bwrdeistref oedd penderfynu a ddylid mabwysiadu Atodlen 3. Dengys tystiolaeth o gofnodion y cyn gynghorau mai dim ond Cyngor Bwrdeistref Arfon wnaeth benderfyniad i fabwysiadu Atodlen 3, gyda'r penderfyniad yn dod yn weithredol ar 1 Awst 1983. Nid oes tystiolaeth fod Cyngor Dosbarth Dwyfor na Chyngor Dosbarth Meirionnydd erioed wedi gwneud y penderfyniad i fabwysiadu Atodlen 3 rhwng Deddf 1982 yn dod i rym a diddymu'r awdurdodau hynny adeg ad-drefnu llywodraeth leol ym 1996.
- 1.4 Mae'n ymddangos hefyd nad oes tystiolaeth bod Cyngor Gwynedd, ers ei sefydlu yn 1996, erioed wedi gwneud penderfyniad i fabwysiadu Atodlen 3 chwaith. Yr unig ardal o'r sir lle mae gan y Cyngor yr hawl i drwyddedu o dan Atodlen 3 yw ardal Arfon (sef ardal yr hen Gyngor Bwrdeistref Arfon). Mae hyn o ganlyniad i rym a etifeddodd y Cyngor oddi wrth yr hen Gyngor Bwrdeistref Arfon adeg ad-drefnu, grym sy'n deillio o'r penderfyniad a wnaed gan y cyn-awdurdod i fabwysiadu o fewn ffiniau Arfon.
- 1.5 Yn ogystal, ers i Gyngor Bwrdeistref Arfon benderfynu mabwysiadu ym 1983, mae Atodlen 3 wedi ei diwygio gan adran 27 o Ddeddf 2009 i gynnwys y gallu i drwyddedu mangreoedd adloniant rhywiol. Gan fod y diwygiad yn ddewisol ac wedi ei gyflwyno ar ôl y penderfyniad i fabwysiadu, nid yw grym y Cyngor i reoleiddio yn Arfon o dan Atodlen 3 yn cynnwys y gallu i reoleiddio mangreoedd adloniant rhywiol ar hyn o bryd.
- 1.6 Fe gofiwch i'r Pwyllgor hwn ystyried yr angen i fabwysiadu trefn o'r fath yn ei gyfarfod ar 19 Gorffennaf 2021. Yn y cyfarfod hwnnw, cymeradwyodd y Pwyllgor hwn i fynd ati i ymgymryd â'r broses o ystyried mabwysiadu Atodlen 3 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 2009, er mwyn sicrhau cyfundrefn ar gyfer trwyddedu a rheoleiddio sefydliadau rhyw drwy'r sir. Yn ogystal fe gymeradwyodd y Pwyllgor i awdurdodi'r Pennaeth Amgylchedd i ymgymryd â phroses o ymgynghori am 28 diwrnod, gan gychwyn ar 26 Gorffennaf 2021, gyda'r nod o ddychwelyd y mater i'r Pwyllgor am benderfyniad ynghylch ag argymhell i'r Cyngor Llawn am benderfyniad yn Hydref 2021 i fabwysiadu, ynghyd ag argymhellion cysylltiol ar y rhybudd statudol, y dyddiad y daw'r mabwysiadu i rym, a

dirprwyo'r grym i'r Pwyllgor hwn i bennu ffioedd, amodau safonol a chynllun prosesu ceisiadau.

- 1.7 Byddai mabwysiadu Atodlen 3 fel y'i diwygiwyd ledled y sir yn galluogi'r Cyngor i reoleiddio a thrwyddedu sefydliadau rhyw. Mae sefydliadau rhyw yn cynnwys:
- Siop ryw (gwerthiant o nwyddau o natur rywiol)
 - Sinema rhyw (dangos ffilmiau gyda chynnwys sylweddol o natur rywiol)
 - Mangre adloniant rhywiol (eiddo busnes sydd yn cynnal adloniant byw o natur rywiol yn aml a rheolaidd).
- 1.8 Byddai mabwysiadu hefyd yn galluogi'r Cyngor i osod amodau safonol ar drwyddedau sefydliad rhyw a chodi ffi rhesymol mewn perthynas â nhw.
- 1.9 Yn olaf, byddai mabwysiadu yn galluogi'r Cyngor i gymryd camau gorfodaeth mewn perthynas â'r troseddau canlynol (nodir y gosb uchafswm o gollfarnu gan Lys Ynadon mewn cromfachau):
- defnyddio unrhyw adeilad, cerbyd, cwch neu stondin fel sefydliad rhyw ac eithrio pan fo hynny'n unol â thrwydded a roddir gan y Cyngor (dirwy di-derfyn);
 - gwneud datganiad ffals mewn perthynas â chais am drwydded sefydliad rhyw (dirwy di-derfyn);
 - methiant deilydd trwydded i arddangos ei drwydded heb esgus resymol (dirwy heb fod yn uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol, sef £1,000.00 ar hyn o bryd).

2 YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS

- 2.1 Lanswyd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar 26 Gorffennaf 2021 a daeth i ben ar 23 Awst 2021.
- 2.2 Cyhoeddwyd datganiad i'r wasg a bu ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol yr Awdurdod. Gyrrwyd negeseuon ebost i randdeiliaid allweddol yn gwahodd iddynt gyfrannu at yr ymgynghoriad, gan gynnwys i Heddlu Gogledd Cymru a chynghorau tref/cymuned. Yn ogystal, rhoddwyd holiadur ar y wefan er mwyn hwyluso cyfranogiad y cyhoedd i'r ymgynghoriad.
- 2.3 Derbyniwyd ebost oddi wrth Heddlu Gogledd Cymru yn cadarnhau nad oedd gwrthwynebiad, yn ogystal ag ebost oddi wrth Gyngor Tref Cricieth.
- 2.4 Derbyniwyd 102 o ymatebion i'r holiadur. O blith rhain, cafwyd ymatebion oddi wrth unigolion, 7 aelod o Gyngor Gwynedd, 2 glerc cyngor tref ac 1 busnes:
- 2.4.1 Roedd 40 o'r ymatebion yn gefnogol i'r egwyddor o fabwysiadu, 19 yn gwrthwynebu a'r gweddill yn anghyflawn.
- 2.4.2 O blith y rhai oedd yn gwrthwynebu, cynigiwyd sylwadau gan 15 ohonynt:

- Roedd 3 ymatebydd o'r farn nad oedd angen mabwysiadu trefn oherwydd nad oedd angen rheoleiddio siopau o'r fath yng Ngwynedd, gan nad oedd yn debygol y byddai llawer o geisiadau na galw am sefydliadau o'r fath.
- Nododd unigolyn arall nad oedd rhai siroedd yn dewis rheoleiddio siopau rhyw.
- Roedd 4 ymatebydd yn teimlo fod mabwysiadu'r drefn yn wastraff arian cyhoeddus.
- Roedd 8 ymatebydd yn nodi eu gwrthwynebiad ar sail foesol neu yn gweld y drefn yn ffordd o normaleiddio egsplotio merched ifanc. Pryderodd rhai bod y drefn yn mynd i arwain at blant yn cael eu dylanwadu mewn modd amhriodol ac y byddai sefydliadau trwyddedig yn annog puteindra.
- Roedd un o'r ymatebwyr hyn o'r farn y byddai grymoedd rheoleiddio yn aneffeithiol.

2.5 Yn gyffredinol, roedd mwyafrif amlwg (68%) o'r ymatebion cyflawn ddaeth i law o blaid mabwysiadu Atodlen 3 i gael trefn rheoleiddio sefydliadau rhyw.

2.6 Yn yr amgylchiadau, argymhellir bod y Pwyllgor yn bwrw ymlaen gydag argymhelliad i'r Cyngor Llawn fabwysiadu Atodlen 3 ynghyd ag argymhellion cysylltliol.

3. CAMAU NESAF

3.1 Os yw'r Pwyllgor yn bwrw ymlaen gyda'r argymhelliad, bydd y mater yn mynd gerbron y Cyngor Llawn ar 7 Hydref 2021.

3.2 Os yw'r Cyngor Llawn yn gwneud penderfyniad yn unol ag argymhellion y Pwyllgor hwn:

- Rhagwelir y bydd y penderfyniad i fabwysiadu yn dod i rym yn Rhagfyr 2021
- bydd y Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol yn trefnu bod hysbysebion statudol yn cael eu cyhoeddi cyn gynted a bo modd mewn papur newydd lleol am 2 wythnos yn olynol, gyda'r cyntaf ddim hwyrach na 28 diwrnod cyn y dyddiad daw y penderfyniad mabwysiadu i rym.
- Bydd y Pwyllgor hwn ailymgynnull yn Nhachwedd 2021 cyn y dyddiad y daw y penderfyniad mabwysiadu i rym, er mwyn pennu ffioedd, gosod amodau safonol a chynllun prosesu ceisiadau.

4. ASESIADAU CYDRADDOLDEB A LLESIANT

4.1 Maes asesiad cydraddoldeb a baratowyd yn unol â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 wedi ei atodi. Mae'r asesiad hwn yn ddiweddariad yn dilyn yr ymgynghoriad o'r

un a baratowyd gyda'r adroddiad cyntaf i'r Pwyllgor ar 19 Gorffennaf 2021. Tra bo'r asesiad fel y'i diweddariwyd yn cyfarch materion a godwyd yn yr ymgynghoriad, daethpwyd i'r casgliad nad oedd rheswm teilwng wedi ei ddatgelu i beidio â pharhau gyda'r broses o argymhell mabwysiadu, ac felly argymhellir y dylid bwrw ymlaen â'r broses honno.

- 4.2 Mae'r cynnig yn rhoi cyfle i'r Awdurdod Trwyddedu hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a'r ddyletswydd economaidd gymdeithasol, drwy sefydlu cyfundrefn lle mae sefydliadau yn cael eu rheoleiddio ac yn gorfod gweithredu mewn ffordd gyfreithlon.
- 4.3 Yn ogystal, yn unol ag argymhellion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi ystyried egwyddorion y ddeddfwriaeth honno ac yn benodol y 5 ffordd o weithio. Mae'r asesiad llesiant a ddiweddariwyd hefyd wedi ei atodi.

ARGYMHELLIAD

Bod y Pwyllgor yn argymhell i'r Cyngor Llawn:

- fabwysiadu ledled y sir Atodlen 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Plismona a Throseddu 2009, gan ddod yn weithredol ddim cynt na 1 Rhagfyr 2021
- gyfarwyddo'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol i gyhoeddi'r hysbysebion statudol ynghlwm â'r penderfyniad i fabwysiadu am 2 wythnos yn olynol, gyda'r cyntaf ddim hwyrach na 28 diwrnod cyn y dyddiad y daw y penderfyniad i rym
- ddirprwyo'r materion o bennu ffioedd, gosod amodau safonol a chynllun prosesu ceisiadau i'r Pwyllgor Trwyddedu Canolog.

DIWEDDARIAD I'R ASESIAID EFFAITH CYDRADDOLDEB A LLESIANT – MABWYSIADU CYFUNDREFN RHEOLEIDIO SIOPAU RHYW

Yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mae'r adroddiad hwn wedi ystyried yr effaith cydraddoldeb o'r cynnig fel a ganlyn:

Hil: Dim effaith wedi ei adnabod

Iaith Gymraeg: Dim effaith wedi ei adnabod

Anabledd: Dim effaith wedi ei adnabod

Rhyw: Effaith bositif wedi ei adnabod. Mae yma nifer sylweddol o ferched yn gweithio mewn mangreoedd adloniant rhywiol. Bydd cyfundrefn trwyddedu yn golygu bod y sefydliadau hyn yn cael eu rheoleiddio, gan helpu taclo unrhyw ymarferion cyflogaeth anfoesegol neu anghyfreithlon (e.e. caethwasiaeth fodern) fyddai'r garfan hon o weithwyr yn fwy tebygol o gael eu hamlygu iddyn nhw yn y swyddi hyn. **Nododd un ymatebydd fod rheoleiddio sefydliadau rhyw o bosib yn gallu cael effaith bositif ar leihau trais yn erbyn benywod.**

Oedran: Effaith bositif wedi ei adnabod. Yn gyffredinol, oedolion ifainc fyddai'n fwy tebygol o weithio fel perfformwyr mewn mangreoedd adloniant rhywiol. Bydd cyfundrefn trwyddedu yn golygu bod y sefydliadau hyn yn cael eu rheoleiddio, gan helpu taclo unrhyw ymarferion cyflogaeth anfoesegol neu anghyfreithlon (e.e. caethwasiaeth fodern) fyddai'r garfan hon o weithwyr yn fwy tebygol o fod yn agored iddyn nhw yn y swyddi hyn. Yn ogystal, bydd cyfundrefn drwyddedu yn galluogi'r Awdurdod Trwyddedu i atal sefydliadau o'r fath mewn lleoliadau sensitif (e.e. wrth ymyl ysgolion), **gan helpu i warchod y carfan pwysicaf yn ein cymdeithas drwy warchod plant rhag niwed; a sicrhau fod amodau ar drwyddedau i atal mynediad i unigolion ifanc.**

Cyfeiriadedd rhywiol: Dim effaith wedi ei adnabod.

Crefydd neu gred: Effaith bositif wedi ei adnabod. Bydd cyfundrefn drwyddedu yn galluogi'r Awdurdod Trwyddedu i atal agor sefydliadau o'r fath mewn lleoliadau sensitif (e.e. wrth ymyl addoldai), gan helpu lleihau ardrawiad andwyol ar ymarfer crefyddol unigolion.

Ailbennu rhywedd: Dim effaith wedi ei adnabod.

Beichiogrwydd a mamolaeth: Dim effaith wedi ei adnabod.

Priodas a phartneriaeth sifil: Dim effaith wedi ei adnabod; **er fod un ymatebydd o'r farn yn nodi mai arwydd o gariad mewn perthynas yw rhyw ac nid rhywbeth iw egsbloitio mewn busnes.**

Bydd y cynnig yn rhoi cyfle i'r Awdurdod Trwyddedu hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a'r ddyletswydd economaidd gymdeithasol, drwy sefydlu cyfundrefn lle mae sefydliadau yn cael eu rheoleiddio ac yn gorfod gweithredu mewn ffordd gyfreithlon.

Derbynwyd sylwadau gan rai ymatebwyr yn nodi fod y cynnig yn caniatáu cyfle i reoleiddio gofod diogel i unigolion o'r gymuned LGBTQ+

Ar y sail nad oes effaith negyddol wedi ei adnabod, argymhellir bwrw ymlaen â'r cynnig.

1. o ran Llesiant:

Yn unol ag argymhellion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae'r adroddiad hwn hefyd wedi ystyried egwyddorion y ddeddfwriaeth, ac yn benodol y cysyniad o'r 5 ffordd o weithio fel y dangosir isod:

Hirdymor – Unwaith mae penderfyniad i fabwysiadu, bydd cyfundrefn barhaol mewn lle fydd yn galluogi trwyddedu a rheoleiddio sefydliadau rhyw ledled y sir. Yn y tymor hir bydd hyn yn cyfrannu at gynllunio cyfrifol o'r fath sefydliadau, a thrwy hynny cyfrannu at agweddau a pharch mwy cyfrifol tuag at warchodaeth o'n cymunedau a dealltwriaeth o'r angen i ystyried yr effaith ar eraill.

Atal – Bydd mabwysiadu yn galluogi'r Cyngor i gadw rheolaeth ar sefydliadau o'r natur yma, gan helpu atal unrhyw niwed cymdeithasol yn deillio ohonynt neu weithgareddau fyddai'n galluogi caethwasiaeth fodern.

Integreiddio – Mae'r broses ymgynghori yn cyfarch nodweddion nifer o sefydliadau (Cyngor Gwynedd, yr Heddlu, cynghorau cymuned a thref, trigolion y sir yn gyffredinol, y diwydiant sefydliadau rhyw). Bydd hefyd yn cyfrannu at amcanion yr Heddlu o ran taelo caethwasiaeth fodern ac at uchelgais y Cyngor o weld cymunedau sy'n llwyddo a ffynnu.

Cydweithio – Byddai unrhyw benderfyniad mabwysiadu o ganlyniad i ymgynghoriad gyda'r uchod.

Cynnwys – Bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn digwydd cyn penderfyniad terfynol ar y mater.

Mae'r asesiad llesiant hwn wedi ei adolygu a'i ddiweddarau yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, a chyn i'r mater gael ei gyfeirio i'r Pwyllgor hwn am yr eildro.